**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

**ALLDRO AMCANOL 2015-2016**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd am y tro**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2015-2016 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion cyfredol bydd £35,298 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Chwefror, ac yn amcangyfrif y gwariant am fis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyflogau yn ymwneud â diffoddwyr tân y system RDS, sef 532k. Mae'r sefyllfa alldro'n seiliedig ar y nifer gyfredol o ddiffoddwyr tân a gyflogir, ac mae'n ystyried tueddiadau mewn lwfansau a ffioedd troi allan ar sail profiad blynyddoedd blaenorol a'r lefelau gweithgarwch hyd yma.

6 Er mwyn cefnogi gofal tân mewn ardaloedd gwledig, fe wnaeth ATA Gogledd Cymru gyflwyno diffoddwyr tân ar system dyletswydd amser cyflawn (WDS) gwledig. Mae diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig ar gontract i weithio 21 awr yr wythnos o leiaf, gyda'r disgwyliad yn wreiddiol y byddent yn gweithio 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Ond bu mwy o ofyn i ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig ddarparu gofal ar orsafoedd amser cyflawn oherwydd ymddeoliad ac i ymorol am gyfnod mamolaeth. Bu hyn yn angenrheidiol wrth geisio recriwtio a hyfforddi diffoddwyr tân newydd. Er mwyn darparu'r gofal hwn, mae'r diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig wedi bod yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos. Mae'r oriau ychwanegol a'r swyddi newydd wedi arwain at orwariant amcangyfrifiedig o gymharu â'r gyllideb wreiddiol; telir y costau ychwanegol gydag arbedion yn y cyllidebau ar gyfer y system RDS a diffoddwyr tân amser cyflawn.

7 Mae'r gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn yn dangos £310k o danwariant o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Wrth i ddiffoddwyr tân adael neu ymddeol, bu oedi rhwng eu hymadawiad a recriwtio diffoddwyr tân yn eu lle, a wnaed ar y cyd â'r ATAau eraill yng Nghymru. Fel y soniwyd uchod, darparwyd y gofal hwn gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig.

8 Mae'r tanwariant yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â'r swydd wag ar gyfer Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

9 Mae'r gorwariant ar y gyllideb ar gyfer crefftwyr peirianneg oherwydd cyflogi prentis mecanig, felly mae gan y Gwasanaeth yr adnoddau ychwanegol i wneud mwy o waith cynnal a chadw cerbydau yn fewnol. Adlewyrchir hyn yn y tanwariannau o fewn y cyllidebau ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw cludiant.

10 Bydd yna orwariant ar y gyllideb ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân oherwydd costau a godwyd ar y gyllideb refeniw ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd nad oedd yn hysbys pan osodwyd y gyllideb.

11 Bydd yna orwariant ar gyllideb hyfforddi staff oherwydd pwysau ychwanegol yn dilyn recriwtio 10 prentis; a'r cynllun peilot cyd-ymateb. Mae recriwtio staff ychwanegol hefyd wedi golygu bod costau hysbysebu wedi bod yn uwch na'r gyllideb wreiddiol.

## Safleoedd

12 Yn gyffredinol, bydd yna £23k o danwariant ar y gyllideb safleoedd. Bu rhai costau ychwanegol ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd gwaith ychwanegol annisgwyl ar namau. Bu cynnydd hefyd mewn defnyddio eitemau glanhau yn dilyn cyflogi contractwyr i wneud y gwaith glanhau ar orsafoedd tân ac mae cost casglu sbwriel wedi codi. Ond mae'r gorwariannau ar nifer o benawdau'r gyllideb yn cael eu gwrthbwyso gan y tanwariant ar gostau ynni oherwydd gostyngiad yn y defnydd o danwydd yn dilyn yr ymgyrch i leihau defnydd a'r ffaith fod prisiau unedau nwy a thrydan yn parhau'n isel.

## Cludiant

13 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd £73k o danwariant yn y gyllideb Cludiant. Mae'r gorwariant ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd cynnydd mewn gwaith offeru ac felly bu angen prynu cyfarpar ychwanegol. Gwneir mwy o waith yn fewnol ond bu cyfnod o groesi drosodd pryd y bu angen defnyddio contractwyr allanol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser. Caiff y costau ychwanegol eu gwrthbwyso gan arbedion ar danwydd a threuliau teithio oherwydd prisiau tanwydd is a llai o deithio yn dilyn y newidiadau i'r modd y cynhelir archwiliadau diogelwch yn y cartref.

## Cyflenwadau

14 Mae'r Awdurdod wedi prynu iwnifformau a chyfarpar gweithredol newydd dan fframwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer caffael iwnifformau ar lefel Cymru gyfan, felly prynwyd rhai eitemau ymlaen llaw er mwyn sicrhau arbedion wrth gaffael. Arweiniodd hyn at £15k o orwariant amcangyfrifiedig ar iwnifformau a £56k ar gyfarpar gweithredol.

15 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfrifiaduron. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer system gysylltiadau radio. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r prosiect drwy bapur a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol ar 20 Gorffennaf 2015. Yn y papur, esboniwyd manylion y prosiect cysylltiadau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, ynghyd â'r posibilrwydd o risgiau sylweddol i'r Awdurdod. Cytunodd yr Aelodau y llynedd i neilltuo £300k i ymorol am

rai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i'r system newydd, ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn gellir ariannu'r costau ychwanegol o'r gyllideb refeniw. Caiff y gorwariant ei wrthbwyso'n rhannol gan arbedion ar y gyllideb gysylltiadau. Mae hyn oherwydd costau is y contract ffonau symudol, ffonau tir a meddalwedd cyfathrebu.

16 Bydd gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth oherwydd y ffordd o drin Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl at ddiben cyfrifyddu. Mae'r orsaf wedi ei sefydlu fel cyfrif masnachu. Mae unrhyw orwariant dros incwm yn cael ei godi felly ar y cyfrif refeniw. Amcangyfrifir y bydd hynny'n £6k eleni. Hefyd, mae cynnydd yn y cymhwysedd am hawliadau cynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol sy'n cael eu teithio a'r oriau sy'n cael eu gweithio gan ddiffoddwyr tân sy'n darparu gofal ar orsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd gorwariant o £5k yn y gyllideb cynhaliaeth.

17 Bydd £80k o orwariant ar brosiectau arbennig megis 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG), mentrau'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, y rhaglen canllawiau gweithredol cenedlaethol (*national operational guidance programme*) a'r cynllun peilot cyd-ymateb. Menter newydd yw hon felly nid oedd unrhyw gyllideb wedi'u dyrannu iddi yn ystod y broses o osod y gyllideb gan nad oedd y costau'n hysbys ar y pryd. Oherwydd gorwariannau mewn rhannau eraill, gellir talu'r costau hyn o fewn y gyllideb yn gyffredinol.

## Asiant

18 Mae'r gost i'r Awdurdod am Lanhau Adeiladau wedi cynyddu gan fod contract glanhau wedi'i osod i lanhau'r holl orsafoedd. O'r blaen, roedd diffoddwyr tân y system RDS yn gwneud y gwaith glanhau ar rai gorsafoedd y system RDS a thelid lwfans iddynt am gyflawni'r dyletswyddau. Caiff rhan o'r costau ychwanegol eu talu gydag arbedion ar lwfansau glanhau.

## Cyllido Cyfalaf

19 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r ffaith fod y rhaglen gyfalaf ar gyfer gwaith adeiladau wedi'i haildrefnu yn 2014/15. Roedd y ffioedd cyfalaf ar gyfer ad-dalu dyledion yn is na'r gyllideb gan fod y gyllideb wedi'i gosod ar sail y sefyllfa alldro yn Rhagfyr 2014. Sicrhawyd costau llogau is hefyd drwy 'fenthyca'n fewnol, sef defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

## Incwm

20 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr incwm yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Cafwyd £34k o ad-daliad oherwydd newidiadau yn y lwfansau trethi ar gyfer lesoedd gweithredu. Mae hyn yn ymwneud â hen lesoedd yr oedd yr Awdurdod yn eu dal. Cafwyd incwm ychwanegol ar gyfer swyddi a ariennir i weithio gyda dau Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

## Gwariant Cyfalaf a ariennir o'r refeniw

21 Er mwyn lleihau costau yn y blynyddoedd i ddod, penderfynwyd ariannu rhywfaint o'r gwariant cyfalaf ar asedau byrdymor drwy gyfraniad o'r refeniw, yn arbennig cerbydau ysgafn a chyfarpar ar gyfer y fflyd. Bydd yr arbedion yn cael eu sicrhau drwy gostau ad-dalu dyledion a benthyca. Bydd yr Aelodau'n cofio cytuno i ddefnyddio unrhyw danwariant i ariannu'r rhaglen gyfalaf fel rhan o'r adroddiad alldro blaenorol, er bod hynny am swm is.

22 Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £223k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa alldro gyffredinol, ni fydd gofyniad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r gronfa honno.

23 £35k yw'r tanwariant a amcangyfrifir, ac ar yr adeg hon o'r flwyddyn ariannol mae'n bosibl y bydd yna rywfaint o newid. Er mwyn hwyluso'r broses o gau i lawr, gofynnir i'r Aelodau gytuno mewn egwyddor i ddefnyddio hyn ac unrhyw danwariannau ychwanegol i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau ffioedd dyledion yn y dyfodol.

## Argymhelliad

24 Bod yr Aelodau'n tanwariant bach ac yn cytuno mewn egwyddor i neilltuo unrhyw danwariannau ychwanegol i ariannu'r rhaglen gyfalaf.